



Neil Buckley  
Prif Weithredwr  
Y Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol

Drwy e-bost: [neil.buckley@legalservicesboard.org.uk](mailto:neil.buckley@legalservicesboard.org.uk)

1 Mawrth 2018

Annwyl Mr Buckley,

### Rheoliadau Hyfforddi yr SRA

Ysgrifennaf atoch yn dilyn derbyn pryderon ynghylch yr Arholiad Cymhwysio i Gyfreithwyr arfaethedig sy'n cael ei ddatblygu gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr ar hyn bryd.

Mae rhai unigolion wedi cysylltu â mi i rannu eu pryderon nad yw'r Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i'r asesiad newydd fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Deallaf fod yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr yn cynnig newidiadau i'r rheoliadau sy'n llywodraethu'r gofynion hyfforddi o dan yr LPC presennol fel rhan o gyflwyno'r trefniadau cymhwysio newydd. Deallaf hefyd fod yr Awdurdod wedi cyflwyno rheoliadau diwygiedig i sylw'r Bwrdd Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn ceisio cymeradwyaeth i newid y rheoliadau, a'ch bod yn ystyried y rhain ar hyn o bryd.

Nodaf fod Rheoliadau Hyfforddi yr SRA wedi'u diwygio yn ystod y blynyddoedd diwethaf i adlewyrchu'r ffaith y gellir cymhwysio fel cyfreithiwr yng Nghymru yn rhannol neu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â'r Saesneg. Fy nealltwriaeth hefyd yw bod sefydliadau addysg uwch yn rhoi'r cynnig i fyfyrwyr sefyll arholiadau llafar ac ysgrifenedig drwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o asesu'r LPC presennol, sy'n adlewyrchu'r rheoliadau.

Mae'n bosib y byddaf am ohebu ymhellach â chi maes o law wrth imi barhau i ystyried y mater hwn. Yn y cyfamser, serch hynny, rwyf am nodi na fuaswn am weld diwygio'r

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221  
post@comisiynyddygybraeg.org  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygybraeg.org

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221  
post@welshlanguagecommissioner.org  
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

rheoliadau hyn yn arwain at unrhyw leihau yn yr ymrwymadau sydd wedi'u cynnwys mewn perthynas â'r Gymraeg yn Rheoliadau Hyfforddi yr SRA fel ag y maent, nac yng ngallu unigolion yng Nghymru i gymhwyso fel cyfreithwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnaf ichi roi sylw i'm sylwadau wrth ichi ystyried y Rheoliadau diwygiedig felly.

Mae pob croeso ichi gysylltu â mi pe gallwn fod o gymorth pellach.

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**  
Comisiynydd y Gymraeg



Neil Buckley  
Chief Executive  
Legal Services Board

By e-mail: [neil.buckley@legalservicesboard.org.uk](mailto:neil.buckley@legalservicesboard.org.uk)

---

1 March 2018

Dear Mr Buckley

### **SRA Training Regulations**

I write to you following receiving concerns regarding the proposed Solicitors Qualifying Examination which is currently being developed by the Solicitors Regulation Authority.

Some individuals have contacted me to share their concerns that the Solicitors Regulation Authority does not intend to make it mandatory for the new assessment to be available through the medium of Welsh.

I understand that the Solicitors Regulation Authority is proposing changes to the regulations which currently govern training requirements under the present LPC, as part of introducing the new qualification arrangements. I also understand that the SRA has submitted revised regulations for the attention of the Legal Services Board in order to seek approval for changing the regulations, which the Board is currently considering.

I note that the SRA Training Regulations were revised during the last few years to reflect the fact that it is possible to qualify as a solicitors in Wales in full or in part through the medium of Welsh as well as English. It is also my understanding that higher education institutions give students the opportunity to sit written and oral examinations through the medium of Welsh as part of assessing the current LPC, consistent with the regulations.

Comisiynydd y Gymraeg  
Siambrau'r Farchnad  
5-7 Heol Eglwys Fair  
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221  
[post@comisiynyddygyymraeg.org](mailto:post@comisiynyddygyymraeg.org)  
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

[comisiynyddygyymraeg.org](http://comisiynyddygyymraeg.org)

Welsh Language Commissioner  
Market Chambers  
5-7 St Mary Street  
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221  
[post@welshlanguagecommissioner.org](mailto:post@welshlanguagecommissioner.org)  
Correspondence welcomed in Welsh and English

[welshlanguagecommissioner.org](http://welshlanguagecommissioner.org)

---



Comisiynydd y  
Gymraeg  
Welsh Language  
Commissioner

It is possible that I may send further correspondence to you in due course as I continue to consider this matter. In the meantime, however, I wish to note that I would not want to see revising the current regulations leading to any reduction in the commitments in relation to the Welsh language contained within the current SRA Training Regulations nor in the ability of individuals in Wales to qualify as a solicitor through the medium of Welsh. I therefore ask that you give attention to my comments as you consider the revised regulations.

Please do not hesitate to contact me if I can assist you further.

Yours sincerely,

**Meri Huws**  
Welsh Language Commissioner